



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CANLLAWIAU AR GYFER FFURFLEN F

CEISIADAU AM DALIAD HEPATITIS C DATBLYGEDIG LLE MAE'R BUDDIOLWR WEDI MARW

CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Mae'r ffurflen hon ar gyfer **Ystâd** person ymadawedig a oedd eisoes yn aelod o Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ac a oedd yn derbyn taliadau Hepatitis C Cronig.

Gan ddefnyddio'r ffurflen hon, gall **Ystâd** y buddiolwr ymadawedig wneud cais am gyfandaliad Hepatitis C Datblygedig sydd ar gael trwy'r cynllun.

I fod â hawl i dderbyn y taliad hwn, mae'n rhaid yr oedd gan y buddiolwr ymadawedig haint Hepatitis C Cronig ac wedi datblygu un o'r rhain:

- Sirosis
- Canser Sylfaenol yr Iau
- Lymffoma Cell-B nad yw'n Lymffoma Hodgkin, neu
- Wedi cael trawsblaniad iau, neu ar y rhestr aros i dderbyn un

Os yw'r amgylchiadau yn wahanol i'r hyn sydd uchod, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan

SUT I WNEUD CAIS

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan Ysgutor Ystâd yr ymadawedig, neu ar ran pob un o'r Ysgutorion os oes mwy nag un. Mae'n rhaid i'r person hwnnw gwblhau pob rhan o Adran 1 y ffurflen hon yn gyntaf. Dylid rhoi'r ffurflen gyfan i weithiwr meddygol proffesiynol ar ôl hynny, a fydd yn cwblhau Adrannau 2-5. Wedyn mae'n rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol fod y prif glinigydd a driniodd yr ymadawedig. Mae'n debyg mai'r clinigydd a'i triniodd am Hepatitis C fydd hwn, ond yn achos person ymadawedig a oedd ag anhwylderau gwaedu (megis haemoffilia), gall fod yn haematolegydd.

Os oes gennych chi unrhyw gofnodion am sut y cawsoch chi eich heintio, rhowch gopïau i'r gweithiwr meddygol proffesiynol a fydd yn cwblhau gweddill y ffurflen.

DOGFENNAU ATEGOL SYDD EU HANGEN

Darparwch gopi o Dystysgrif Marwolaeth y buddiolwr ymadawedig.

Ar ôl derbyn y cais oddi wrth y gweithiwr meddygol proffesiynol, bydd Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn cysylltu â chi yn gofyn am gopïau o ddogfennau perthnasol eraill (er enghraifft, ewyllys y person ymadawedig, copi o'r Grant Cynrychiolaeth gan y Llys, ayyb, fel y bo'n briodol).

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r gweithiwr meddygol proffesiynol gwblhau'r ffurflen, mae'n rhaid iddo/iddi ei hanfon, ynghyd â chopi o bob cofnod perthnasol, i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. A bwrw y bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau'r hawl i dderbyn taliad, cewch chi lythyr gan y Cynllun i gadarnhau hyn a bydd yn gofyn ichi ddarparu unrhyw fanylion pellach.

CYMORTH GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru